Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

COMISIWN
gwasanaethau cyfreithiol

Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Realaeth yng Nghymru

Dogfen bolisi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol

Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol

Medi 2007

Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Ffaith yng Nghymru

Dogfen bolisi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol

Cynnwys **Tudalen**

1	Rhagair Gweinidogol ar y Cyd	3
2	Cyflwyniad	5
3	Gweledigaeth	7
4	Dull Llywodraethu'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol	9
5	Darparu Gwasanaeth	11
	Gwasanaethau Cynghori Cyfreithiol Cymunedol	
6	Casgliad	17

Atodiad A: Cylch Gorchwyl Pwyllgor Cymru'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol

Atodiad B: Yr Ardaloedd Gweithio Rhanbarthol a Fwriedir yng Nghymru

1 Rhagair Gweinidogol ar y Cyd

Mae gan y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (CLS) rôl hanfodol wrth helpu i sicrhau bod gan bawb mewn cymdeithas fynediad at gyfiawnder, gwarchod hawliau sylfaenol a helpu pobl i wneud gwelliannau i'w bywydau. Ers lansio'r CLS yn 2000, gwelwyd cynnydd da i wella mynediad at gyngor cyfreithiol o ansawdd uchel.

Mae *Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Ffaith yng Nghymru* yn nodi y weledigaeth a rennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ar gyfer y camau nesaf yn natblygiad y CLS yng Nghymru, o ystyried yr egwyddorion a amlinellir yn *Creu'r Cysylltiadau – Cyflawni ar Draws Ffiniau* a *Diwygio Cymorth Cyfreithiol: Y Ffordd Ymlaen.*

Mae gwireddu'r weledigaeth hon yn gofyn am bartneriaeth effeithiol a gwell cydlynu rhwng llywodraeth ar bob lefel, darparwyr gwasanaeth a defnyddwyr. Mae Llywodraeth y Cynulliad a'r Comisiwn wedi gweithio gyda'i gilydd yn llwyddiannus i gytuno ar y ffordd ymlaen o ran cyfeiriad strategol, polisi a chyllido. Mae'r ddogfen hon yn esbonio sut y byddwn ni, a'n partneriaid, yn gweithio gyda'n gilydd i sefydlu - yn rhanbarthol a chenedlaethol - fframwaith ar gyfer comisiynu a darparu gwasanaethau o ansawdd sydd wedi eu cydlynu, tra byddwn ar yr un pryd yn sicrhau gwerth am arian a gwell canlyniadau.

Mae'r amgylchedd newydd y bydd gwasanaethau cyfreithiol yn cael eu darparu ynddi yn hollol gyson â'r amcanion ehangach ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Gwasanaethau cyhoeddus sy'n fwy blaengar ac yn canolbwyntio mwy ar y dinesydd, wedi eu dylunio i ddiwallu anghenion yr holl gleientiaid. Gwasanaethau sy'n cael eu darparu trwy ddulliau mwy cydweithredol ar draws ardaloedd daearyddol, gyda mwy o gomisiynu rhanbarthol. Er mwyn bod yn llwyddiannus rydym yn cydnabod yr angen am beirianwaith effeithiol i uno'r gwasanaethau cymorth cyfreithiol a ariennir gan y Comisiwn â'r gwasanaethau cynghori cyffredinol ac arbenigol a ariennir gan eraill, gan gynnwys awdurdodau lleol a Llywodraeth y Cynulliad.

Er nad yw gwasanaethau cyfreithiol wedi eu datganoli, mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Comisiwn yn cydnabod bod yn rhaid iddynt chwarae rôl allweddol wrth ddatblygu gwasanaethau mwy cydweithredol sydd yn canolbwyntio ar y dinesydd, gan weithio mewn gwasanaeth cyhoeddus Cymreig sy'n gryf ac yn fwy unol. Mae'r fframwaith yn cadw mewn cof y tirwedd gwleidyddol a diwylliannol sy'n wahanol iawn yng Nghymru ac yn ymdrin â'r pryderon yr ydym yn eu rhannu am allgau llawer o'r dinasyddion mwyaf bregus ac ynysig.

Bydd symud y fframwaith hwn ymlaen yn her i bawb. Mae'r pwyslais arnom i gyd, gan weithio gyda'n gilydd, i wireddu'r weledigaeth hon a sicrhau bod gwasanaethau cyfreithiol a chynghori yn cael eu darparu yn llwyddiannus yng Nghymru.

Arglwydd Hunt O Kings Heath **Dr Brian Gibbons AM**

2 Cyflwyniad

Mae'r ddogfen bolisi ar y cyd hon gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, yn nodi'r fframwaith ar gyfer gweithredu'r camau nesaf o'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (CLS) yng Nghymru. Mae'n amlinellu sut y bydd Strategaeth CLS y Comisiwn *Making Legal Rights a Reality* yn cael ei gweithredu yng Nghymru, gan weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Gosodwyd y fframwaith yn gadarn mewn cyd-destun Cymreig, gan ystyried datganoli, daearyddiaeth, diwylliant ac iaith ac mae'n gosod y cyfeiriad ar gyfer y CLS yng Nghymru dros y pum mlynedd nesaf, a fydd yn darparu mynediad da i bobl at wasanaethau cynghori gyda sicrwydd ansawdd sy'n canolbwyntio ar y dinesydd ar gost sy'n gyfystyr â'r gwerth gorau posibl am arian i drethdalwyr.

Mae'r cynigion a welir yn y ddogfen hon yn anelu at sicrhau dyfodol y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol yng Nghymru ar amser pan welir y cyllid dan bwysau cynyddol. Mae hefyd yn ceisio ymdrin â materion allweddol a ddynodwyd yn adroddiad Canolfan Ymchwil y Gwasanaethau Cyfreithiol ar yr Arolwg Genedlaethol o Broblemau Traddodadwy, 'Causes of Action' (2004), yn ogystal ag yn adroddiad Frontier Economics, 'A market analysis of legal aided services provided by solicitors' (2003) a'r adroddiad ar yr Adolygiad Annibynnol o'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol a gynhaliwyd gan Matrix Research and Consultancy (2004).

Yn ychwanegol, mae'r fframwaith hwn yn ceisio cyrraedd yr amcanion a amlinellwyd yn Creu'r Cysylltiadau: rhagor o siopau un stop, ffyrdd gwahanol o gael mynediad at wasanaethau, sy'n adlewyrchu'r bywydau amrywiol yr ydym yn eu byw, mwy o effeithlonrwydd wrth gyrraedd y rhai bregus a'r rhai dan anfantais, a rhoi dinasyddion a chymunedau wrth galon darparu gwasanaeth.

Mae'r fframwaith yn anelu at:

- gyfuno cymorth cyfreithiol sifil yn fwy effeithiol gyda gwasanaethau cyfreithiol a chynghori nad ydynt yn cael eu hariannu gan yr LSC;

- darparu gwell mynediad at wasanaethau cyfreithiol a chynghori i'r rhai yn yr ardaloedd tlotaf gyda'r nifer fwyaf o broblemau, tra byddwn yn cynnal mynediad rhesymol mewn mannau eraill;

- darparu gwasanaethau integredig, o gyngor sylfaenol i gyfreithia cymhleth, a all ymdrin ag ystod o broblemau mewn gwahanol gategorïau o'r gyfraith, ac sy'n lleihau'r nifer sy'n rhaid eu cyfeirio;

- cael gwell gwerth am arian trwy gydlynu gwahanol ffynonellau ariannol; ac

- ymdrin ag achosion sefydliadol y problemau y mae cleientiaid yn eu hwynebu.

Yn ychwanegol, mae gan Gymru gyfleoedd rhagorol i wella'r modd y darperir gwasanaethau trwy weithio'n glos gyda budd-ddeiliaid allweddol, fel y dynodwyd gan Syr Jeremy Beecham yn ei ragair i'r adolygiad Ar Draws Ffiniau: 'Mae gan Gymru gyfle rhyfeddol, yn deillio yn rhannol o'i thraddodiadau ac yn rhannol o'i maint, i arwain y ffordd yn yr hyn y gallwn ei alw yn "lywodraethu gwlad fach", gan ddarparu gwasanaethau rhagorol, ymatebol, atebol sy'n canolbwyntio ar y dinesydd i'w phobl, a gyda hwy, mewn modd fydd yn anos i'w chymdogion mwy.'

Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn mae'r papur yn ymrwymo'r Comisiwn i:

- strwythur llywodraethu clir a fydd yn sicrhau dulliau creu polisi ac ariannu ar y cyd, ynghyd â pheirianwaith i ddeall anghenion dinasyddion Cymru o ran derbyn cyngor;

- gwasanaeth ffôn ehangach a fydd yn cynnig porth effeithiol i amrywiaeth eang o gyngor i holl ddinasyddion Cymru;

- cyd-gomisiynu gwasanaethau cynghori, trwy Wasanaethau Cyngor Cyfreithiol Cymunedol (canolfannau a/neu rwydweithiau), a fydd yn sicrhau bod yr ariannu'n cael ei gydlynu a mynediad rhwydd yn lleol at ystod eang o wasanaethau cynghori cyflenwol. Bydd hyn yn darparu gwasanaethau yn unol â'r argymhellion yn *Creu'r Cysylltiadau*.

Dilyn cyhoeddi'r papur ymgynghorol ar y cyd gan y Comisiwn a Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Ffaith yng Nghymru,* a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2006 y mae cyhoeddi'r papur hwn. Bu ystod eang o fudd-ddeiliaid yn ymwneud â'r ymgynghoriad ac maent wedi helpu i siapio'r ffordd y bydd y CLS yn cael ei symud ymlaen ar draws Cymru.

Mae Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Ffaith yng Nghymru ac adroddiad ar yr ymarfer ymgynghorol ar gael ar wefannau Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol: www.cymru.gov.uk a www.legalservices.gov.uk

3 Gweledigaeth

Mae Deddf Mynediad at Gyfiawnder 1999 yn nodi dyletswyddau'r Comisiwn o ran sefydlu a chynnal y CLS. Ei amcanion yw hyrwyddo argaeledd gwybodaeth gyfreithiol a gwasanaethau cynghori i unigolion a sicrhau bod gan unigolion fynediad at wasanaethau sy'n bodloni eu hanghenion yn effeithiol. Mae'r Comisiwn yn ymroddedig i gyflawni ei ddyletswydd o ddeall anghenion unigolion a sicrhau bod y gwasanaethau yn cael eu dylunio i'w diwallu.

Mae'r fframwaith hwn yn cydnabod yr amgylchiadau unigryw sy'n bodoli yng Nghymru ac mae'n rhoi ymrwymiad i symud ymlaen mewn ffordd fydd yn rhoi pobl Cymru wth galon y gwasanaethau. Mae'r Comisiwn a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymroddedig i wella eu dealltwriaeth o amgylchedd polisi ei gilydd. Bydd y dull gweithredu hwn yn helpu i ddynodi ffyrdd y gallwn weithio ar y cyd i sicrhau bod y gwasanaethau cynghori cyfreithiol sy'n cael eu hariannu gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Awdurdodau Lleol yn cael yr effaith mwyaf posibl.

Mae'r Comisiwn yn hollol gefnogol i ddull Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth ddatblygu gwasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Mae'r Comisiwn yn hyderus y bydd y model hwn yn galluogi'r cyhoedd i gael mwy o ran yn y gwaith o ddylunio gwasanaethau.

Mae'r fframwaith hefyd yn darparu ar gyfer y cyfle i weithio gyda budd-ddeiliaid eraill i sicrhau bod y gwasanaethau cynghori cyfreithiol yn diwallu anghenion unigolion yng Nghymru. Mae'r fframwaith ar gyfer caffael gwasanaethau yn un dull o sicrhau bod y gwasanaethau ar gael i'r rhai mwyaf bregus mewn cymdeithas. Ond rhaid i'r holl system gyfiawnder gael ei diwygio i gyd-fynd â hynny, gan ganiatáu i'r holl fudd-ddeiliaid fod mor effeithiol ac effeithlon â phosibl.

Mae'r weledigaeth sy'n gyffredin rhyngom ar gyfer y CLS yn gosod y cleient yn y canol ac yn canolbwyntio ar hawliau unigolion. Bydd gwasanaethau cyfreithiol yn cael eu datblygu i gynnal yr hawliau hyn, gan eu targedu ar bobl na fyddai, heb eu cefnogaeth, yn medru cael mynediad at gyfiawnder. Mae ymroddiad i ddefnyddio'r gyfraith i gyflawni newid cadarnhaol yn ganolog i'r CLS: newid mewn bywydau unigol, mewn cymunedau sy'n rhannu problem gyffredin, ac ar draws grwpiau sy'n wynebu problemau penodol. Fe'i seiliwyd ar y gydnabyddiaeth nad yw pobl yn wynebu 'problemau cyfreithiol' ond problemau y gall y gyfraith gynnig ateb iddynt ac yn y sefyllfaoedd hynny mae arnynt angen mynediad at wasanaethau integredig a diwnïad.

Bwriad y Comisiwn yw datblygu'r CLS mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru a budd-ddeiliaid allweddol eraill fel ei fod:

- Yn canolbwyntio ar y cleient ac yn hygyrch;
- Yn annibynnol;
- Yn gost effeithiol ac wedi ei gydlynu; a
- Gyda sicrwydd ansawdd.

Mae Creu'r Cysylltiadau, fframwaith strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, yn amlinellu'r farn bod gwasanaethau cyhoeddus rhagorol yn hanfodol i weld Cymru ffyniannus, gynaliadwy, ddwyieithog, iachach a mwy addysgedig. Deuir â dinasyddion a chymunedau i ganol y ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu dylunio a'u darparu fel bod y gwasanaethau yn ymatebol i anghenion defnyddwyr ac yn hawdd cael mynediad atynt. Mae'r Comisiwn yn cymeradwyo'r dull hwn yn llwyr.

Bydd rhoi'r dinesydd yn gyntaf, gweithio gyda'n gilydd i ddarparu gwasanaethau a sicrhau gwell gwerth am arian yn caniatáu i'r Comisiwn wireddu ei weledigaeth yn unol â'r cysyniadau a nodir yn *Creu Cysylltiadau: Cyflawni ar Draws Ffiniau* Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Bydd y Comisiwn felly yn annog hyblygrwydd a mewnbwn lleol fel bod y gwasanaethau yn wirioneddol atebol i gymunedau lleol. Bydd hyn yn cael ei wneud tra byddwn yn cael y gwerth gorau posibl am arian cyhoeddus, yn unol â'r trefniadau caffael a amlinellir yn yr adroddiad ar Adolygiad yr Arglwydd Carter ar Gaffael Cymorth Cyfreithiol*: Legal Aid Reform: The Way Ahead*.

4 Dull Llywodraethu'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol

Cyn y gall y CLS weithio'n effeithiol, rhaid iddo gael peirianwaith i ddwyn y prif chwaraewyr at ei gilydd. Mae'n hanfodol cael peirianweithiau effeithiol i uno'r gwasanaethau cynghori cyffredinol ac arbenigol a gyllidir gan eraill, fel awdurdodau lleol, â'r gwasanaethau cymorth cyfreithiol a ariennir gan y Comisiwn.

Pwyllgor Cymru

Yn dilyn trafodaeth gyda'r cyrff allweddol yng Nghymru, sefydlodd y Comisiwn Bwyllgor Cymru o'r CLS. Bydd hyn yn galluogi'r Comisiwn i gyflawni ei ddyletswyddau dan y Ddeddf Mynediad at Gyfiawnder o hwyluso cyd-gynllunio a chomisiynu ar wasanaethau cynghori cyfreithiol. Bydd y Pwyllgor yn cryfhau a gwella'r modd y bydd y strategaeth yn cael ei darparu yng Nghymru trwy ddwyn y llunwyr polisi allweddol a chyllidwyr gwasanaethau cynghori at ei gilydd a thrwy rannu gwybodaeth.

Mae aelodaeth Pwyllgor Cymru yn awr wedi ei gryfhau o'r cynnig gwreiddiol ac mae'n cynnwys llunwyr polisïau a chyllidwyr, yn ychwanegol at Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i gynrychioli llais cleientiaid a Chadeirydd Fforwm Cenedlaethol CLS Cymru i gynrychioli barn y darparwyr gwasanaeth.

Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn gydag un o'r cyfarfodydd yn cael ei gyflwyno i ymwneud yn ehangach â chleientiaid ac un arall i ymwneud yn ehangach â darparwyr gwasanaeth. Bydd y cyrff a gynrychiolir ar y Pwyllgor yn parhau i ymwneud fel y maent ar hyn o bryd tu allan i'r strwythur hwn gyda chleientiaid a darparwyr gwasanaeth.

Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor a'r rhestr aelodau yn Atodiad A.

Pwyllgor Ymgynghorol Cenedlaethol (NCC) i Gymru a Lloegr

Yn ychwanegol at Bwyllgor Cymru, mae Pwyllgor Ymgynghorol Cenedlaethol (NCC) ar gyfer Cymru a Lloegr i'r CLS yn mynd i gael ei ddatblygu, fel yr amlinellir yn *Making Legal Rights a Reality*. Llunnir dolen rhwng Pwyllgor Cymru a'r NCC i Gymru a Lloegr i sicrhau bod materion sy'n benodol i Gymru yn cael eu hadlewyrchu ar y grŵp hwnnw. Bydd Cadeirydd Pwyllgor Cymru a chynrychiolydd uchel o Lywodraeth Cynulliad Cymru yn eistedd ar yr NCC dros Gymru a Lloegr.

Gweithio Gyda'n Gilydd

Mae'n cael ei gydnabod, fodd bynnag, na all perthynas gref ddibynnu'n llwyr ar strwythurau Pwyllgor. Bydd darparu'r CLS yn effeithiol yn dibynnu ar berthynas gref, ar lefel gwaith rhwng swyddogion yn y Comisiwn, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a swyddogion mewn llywodraeth ganolog a lleol. Mae'r trefniadau a'r berthynas sydd eisoes yn bodoli yn cael eu cryfhau a bydd yn bwysig i'r berthynas waith effeithiol rhwng cynrychiolwyr etholedig a swyddogion, Aelodau'r Cynulliad a Chomisiynwyr gael ei chynnal a'i datblygu.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod y dylai'r dulliau cyfathrebu gyda darparwyr sy'n bodoli, fel cyfarfodydd rhwng Gweinidogion a swyddogion, hefyd barhau gan fod y rhain yn cynnig adborth gwerthfawr ar ddarparu gwasanaethau cynghori yn effeithiol ar draws Cymru.

5 Darparu Gwasanaeth

Gwasanaethau Cynghori Cyfreithiol Cymunedol

Dim ond rhan o'r darlun y mae'r gwasanaethau cyfreithiol a ariennir gan y Comisiwn yn ei roi o ran y ddarpariaeth gan fod llawer o ddarparwyr gwasanaeth cynghori yn cael cyllid o amrywiaeth o ffynonellau eraill. Yn benodol mae awdurdodau lleol a'r sector iechyd yn cyfrannu symiau sylweddol o arian at gyngor cyfreithiol. Mewn llawer o amgylchiadau mae natur wahanol y cyllid wedi arwain at batrwm darparwyr sy'n dameidiog ac yn aml mae'n rhaid i gleientiaid chwilio am gymorth o nifer o ffynonellau er mwyn datrys cymhlethdod eu problemau.

Felly, lle bynnag y mae'n bosibl, caiff gwasanaethau eu comisiynu ar y cyd gyda chyllidwyr yng Nghymru, bydd hyn yn ddieithriad i ddechrau gydag awdurdodau lleol a, lle'n ymarferol Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn neilltuol am feysydd gwaith tu allan i gwmpas cymorth cyfreithiol, ond y nod yn y pen draw fyddai cynnwys mwy o gyllidwyr. Mae agenda polisi Llywodraeth y Cynulliad ar draws nifer o sectorau gwasanaeth yn glir: mae defnyddio cronfeydd wedi'u cronni ac adnoddau pellach yn ddull pwysig o gefnogi partneriaethau wrth gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Mae datganiad clir yn "Cymru'n Un" i ddatblygu Byrddau Gwasanaeth Lleol a chytundebau'n cynnwys ymrwymiad i gronfeydd wedi eu cronni yn sylfaenol i'r agenda hwn.

Cydnabyddir nad yw comisiynu gwasanaethau ar y cyd yng Nghymru yn gysyniad newydd, a'r bwriad yw adeiladu ar lwyddiannau'r gorffennol, er enghraifft y rhai mewn iechyd a gofal cymdeithasol, er mwyn cyflenwi'r gwasanaethau o'r ansawdd gorau a mwyaf hygyrch i bobl Cymru. Bu hefyd enghreifftiau lle mae trefniadau anffurfiol wedi bodoli rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r Comisiwn i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol, megis gwasanaethau cyngor tai â chymorth Llywodraeth y Cynulliad a fu'n gyflenwol i wasanaethau a ariannwyd gan y Comisiwn.

Ein polisi felly yw symud tuag at ddarparu gwasanaethau lles cymdeithasol a chyfraith deuluol trwy ddull mwy integredig, gan ddefnyddio gwasanaethau ffôn a wyneb yn wyneb. Gan fod cost uned cyngor ffôn yn is na chost cyngor wyneb yn wyneb, pan ellir dangos bod cyngor dros y ffôn yn ddull effeithiol o ddarparu bydd y Comisiwn yn ehangu'r gwasanaethau a ddarperir gan Galw Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol i helpu rhagor o bobl. Bydd gwasanaethau cyngor wyneb yn wyneb, lles cymdeithasol a chyfraith teulu yn cael eu caffael trwy gomisiynu ar y cyd pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl.

Bydd Gwasanaethau Cynghori Cyfreithiol Cymunedol yn ymatebol i anghenion lleol a bydd yn ofynnol iddynt ddiwallu'r anghenion hynny gyda'r adnoddau hynny sydd ar gael. Deuant â gwasanaethau i'r cleientiaid hynny nad ydynt yn cyrchu gwasanaethau cyngor cyfreithol ar hyn o bryd, yn neilltuol y rhai o grwpiau blaenoriaeth bregus, byddant yn helpu i fynd i'r afael ag achosion cyffredin problemau pobl ac yn helpu i godi ymwybyddiaeth o hawliau cleientiaid.

Wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn yr ydym yn cydnabod y dewis i ddinasyddion yng Nghymru i ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac, wrth sicrhau y diogelir yr hawl hwn, byddwn yn ceisio dynodi anghenion y Gymraeg o fewn pob gwasanaeth ar y cam dylunio a chyn comisiynu gwasanaethau. Rhoddir ystyriaeth hefyd ar y cam hwn i anghenion unigolion sy'n byw yng Nghymru nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.

Gwasanaethau Ffôn

Bydd Galw Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol yn cynnig gwasanaeth ffôn dwyieithog cynhwysfawr a fydd yn darparu cyfran fawr o'r wybodaeth, diagnosis a chyngor sylfaenol yn arbennig mewn cyfraith lles cymdeithasol a ariennir gan y Comisiwn. Bydd y Comisiwn yn ehangu'r gwasanaeth i gynnig gwasanaeth cynghori arbenigol mewn cyfraith teulu ac i ymgorffori problemau pan fydd teulu'n chwalu mewn gwasanaeth brysbennu. Wrth ehangu'r gwasanaeth ffôn yng Nghymru, bydd yn ofynnol gweithio ar ddynodi grwpiau iaith eraill, a fyddai'n cael budd o ddefnyddio'r gwasanaeth. Bydd dulliau marchnata effeithiol yn ymdrin â'r angen a ddynodwyd.

Mae ehangu Galw Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol yn cynnig rhan o'r ateb i'r problemau parthed mynediad mewn ardaloedd gwledig. Fodd bynnag, mae'n cael ei gydnabod bod rhai mathau o achosion neu amgylchiadau lle mai gwasanaeth wyneb yn wyneb yw'r ateb gorau. Bydd Galw Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol yn parhau i gyfeirio achosion i linellau cymorth ffôn eraill fel Cyswllt Defnyddwyr Cymru a darparwyr eraill pan fydd ar y cleient angen cyngor wyneb yn wyneb.

Ar hyn o bryd ni wyddys beth yw'r galw am gyngor ar y ffôn. Bydd y Comisiwn yn gweithio gyda chleientiaid a darparwyr i ddeall, nid yn unig pa gydbwysedd sy'n angenrheidiol rhwng cyngor ar y ffôn ac wyneb yn wyneb, ond hefyd y mathau o gyngor a'r lefel sy'n fwy addas i wasanaethau cynghori ar y ffôn. Bydd Galw Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol yn cysylltu â Gwasanaethau Cynghori Cyfreithiol Cymunedol, fel y nodir isod, wedi iddynt gael eu sefydlu.

Gwasanaethau Wyneb yn Wyneb

Mae *Making Legal Rights a Reality* yn cynnig y polisi ar gyfer darparu cyfraith lles cymdeithasol. Mae'n nodi bwriad y Comisiwn i brynu gwasanaethau cyfreithiol mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu problemau cleientiaid ac yn ei gwneud yn haws i gael mynediad at wasanaethau, sy'n golygu cyfeirio arian a gwasanaethau i'r lleoedd y mae ar y cleientiaid fwyaf o'u hangen. Mae'r dull hwn wedi ei seilio ar dystiolaeth a ddarparwyd gan arolwg cyfraith sifil a chyfiawnder cymdeithasol y Ganolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol, a ddarganfu, pan fydd unigolyn yn wynebu problem cyfiawnder sifil, bod hyn yn debygol o arwain at ragor o broblemau. Cadarnhaodd yr ymchwil nad yw unigolion yn profi problemau ar eu pen eu hunain ac felly yn aml mae arnynt angen cyngor ar draws ystod o broblemau neu gategorïau o'r gyfraith. Gwelir rhagor o dystiolaeth o hyn mewn ymchwil a wnaed yn ddiweddar gan Brifysgol Caerdydd a Matrix Research and Consultancy lle'r oedd hyd at hanner yr

unigolion oedd yn ymwneud â'r astudiaeth yn dangos problemau oedd yn torri ar draws ffiniau categorïau arbenigol.

Bydd gwasanaethau lles cymdeithasol wyneb yn wyneb yn cael eu comisiynu mewn bwndeli, hynny yw, byddant yn cynnwys y pum categori o ofal cymunedol, dyled, cyflogaeth, tai a budd-daliadau lles, i gydnabod natur luosog problemau cleientiaid a'r anawsterau sy'n gynhenid mewn cyfeirio. Ein prif amcan yw datblygu darpariaeth lles cymdeithasol a chyfraith teulu integredig sy'n diwallu anghenion cleientiaid. Mae cred gadarn y bydd yr egwyddor o wasanaethau integredig yn helpu i gyflawni hyn, ond mae'n cael ei dderbyn y bydd yn rhaid defnyddio dull hyblyg, yn arbennig yng nghyswllt y modelau y mae gwasanaethau yn cael eu darparu trwyddynt.

Bydd symudiad tuag at ymagwedd contract sengl mewn cyfraith lles cymdeithasol i sicrhau integreiddio cyflawn gwasanaethau a gaiff ei gysylltu'n ffurfiol gyda nifer o gontractau teulu annibynnol. Bydd y contract cyfraith lles cymdeithasol yn cwmpasu'r holl waith a wneir yn y maes caffael yn y pum categori o gyfraith a phob lefel o wasanaeth o gyngor cyffredinol i gynrychiolaeth yn y llys. Mae'n annhebyg iawn y byddai un darparydd gwasanaeth yn medru cyflenwi'r gwasanaethau hyn ar hyn o bryd. Y disgwyliad felly yw y bydd angen nifer o ddarparwyr gwasanaeth yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu'r amrediad llawn o wasanaethau er y cânt eu gweinyddu dan un contract lles cymdeithasol ym mhob ardal.

Yn *Making Legal Rights a Reality,* dynodwyd Canolfannau Cyngor Cyfreithiol Cymunedol a Rhwydweithiau Cyngor Cyfreithiol Cymunedol fel modelau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau integredig. Fodd bynnag derbyniwn fod angen bod yn hyblyg wrth benderfynu ar y model cyflenwi mwyaf addas, yn ôl anghenion cleientiaid ym mhob maes caffael unigol. Mae hyn yn neilltuol o bwysig yng Nghymru wrth ddynodi anghenion maes caffael. Felly ni ddywedir ar y cychwyn cyntaf os dylai gwasanaeth fod yn rhwydwaith neu ganolfan, ond ei bennu drwy drafodaethau lleol am y fanyleb gwasanaeth. Ar ôl dweud hynny, rhagwelir ar hyn o bryd ei bod yn debygol mai rhwydweithiau fydd y model mwyaf addas ar draws llawer o Gymru.

Cydnabyddir fod eisoes amrediad o fodelau cyflenwi gwasanaeth effeithiol ar gyfer gwasanaethau cyngor cyfreithiol yng Nghymru. Gall fod angen i ddarparwyr gwasanaeth arloesi gyda gwasanaethau yn seiliedig ar enghreifftiau o arfer da e.e. allgymorth, cyfeirio a brysbennu, er mwyn cyflenwi i unigolion sydd angen cymorth.

Mae **Canolfannau** yn anelu i ddarparu gwasanaethau diwnïad ac integredig i gleientiaid drwy ddod â'r holl wasanaethau allweddol o fewn ardal benodol ynghyd i un endid cyfreithiol. Bydd hyn yn golygu y gall cleientiaid gael mynediad i'r holl wasanaethau y maent eu hangen drwy un sefydliad er yn gyffredinol bydd hyn yn cynnwys nifer o ddarparwyr gwasanaeth.

Nid yw un sefydliad yn golygu gwasanaeth un safle ac er mwyn cyrraedd rhai grwpiau cleient blaenoriaeth bydd angen cyflenwi gwasanaethau drwy safleoedd allgymorth a swyddfeydd eilaidd. Gall hefyd fod yn briodol i sefydliad gael nifer o

safleoedd cyflenwi, er enghraifft lle mae'r ardal a wasanaethir yn weddol fawr yn ddaearyddol neu fod patrymau mynediad/teithio clir i'r boblogaeth leol. Yn y pen draw, er y gall cyllidwyr nodi gofynion neilltuol yn nhermau sut y cyflenwir y gwasanaeth, mater i'r rhai sydd agosaf at y cleientiaid, h.y. y darparydd gwasanaeth, fydd penderfynu ar y ffordd orau i ddarparu'r gwasanaeth.

Mae **Rhwydweithiau** yn rhannu'r un amcanion â chanolfannau ond rhagwelir y byddant yn fodel mwy addas ar gyfer ardaloedd lled-wledig, gwledig o bosibl ardaloedd rhanbarthol mwy. Gall rhwydweithiau felly fod y model mwyaf addas ar gyfer gweithio rhanbarthol yng Nghymru. Byddai rhwydweithiau yn dod ynghyd â chonsortiwm o sefydliadau i ddarparu'r gwasanaethau hyn, a byddent felly yn debygol o fod â nifer o ddarparwyr yn medru darparu mathau cyflenwol o gyngor yn hytrach na mathau sy'n cystadlu. Y model a ffafrir ar gyfer rhwydwaith yw i'r cyllidwyr gontractio gyda chyflenwr arweiniol a fyddai wedyn yn is-gontractio gyda chyflenwyr eraill.

Yr amcanion craidd ar gyfer unrhyw wasanaeth fydd gostwng y nifer o weithiau y mae'n rhaid cyfeirio cleient a sicrhau unwaith fod cleient yn cysylltu ag unrhyw ran o'r gwasanaeth y byddant yn cael mynediad i'r help maent ei angen i ddatrys eu problemau cyfreithiol sifil.

Ardaloedd Caffael

Mae'r Comisiwn yn cefnogi barn Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar weithredu rhanbarthol yng Nghymru, fel sy'n cael ei amlinellu yng Nghynllun Gofodol Cymru a strwythur Partneriaeth Ranbarthol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Felly, er ein bod yn cynnig caffael gwasanaethau yn rhanbarthol bydd ffurf yr ardaloedd caffael yn cael eu pennu trwy drafodaethau gyda chyd-gomisiynwyr posibl a gall ddigwydd bob yn gam. Amlinellir ardaloedd caffael rhanbarthol arfaethedig y Comisiwn yn Atodiad B.

Bwriedir i'r Gwasanaeth Cynghori Cyfreithiol Cymunedol cyntaf yng Nghymru fod yn ei le erbyn Ebrill 2009. Bydd cyflwyno gwasanaethau cyfraith lles cymdeithasol a theulu trwy Gymru yn parhau hyd at 2012.

Cyllideb Osodedig

Bydd gwasanaethau mewn 'meysydd caffael' penodol yn cael eu comisiynu ar sail cyllideb cymorth cyfreithiol osodedig. Defnyddir fformiwla cyllido genedlaethol fel man cychwyn ar gyfer cyllideb ddangosol ar gyfer pob maes i sicrhau fod pob ardal o Gymru yn derbyn dyraniad addas o'r adnoddau sydd ar gael.

Ni fydd dyrannu'r arian felly yn hollol ddibynnol ar y patrwm gwariant hanesyddol. Ond cyn newid dosbarthiad cyfredol y cyllid, bydd y Comisiwn yn ymwneud â budd-ddeiliaid er mwyn deall yn llawn sut y mae cleientiaid yn cysylltu â'r gwasanaethau ar hyn o bryd. Er enghraifft, a yw cleientiaid yn teithio tu allan i'w hardal gaffael i gael gwasanaethau oherwydd nad ydynt yn bodoli yn lleol neu oherwydd ei bod yn nodweddiadol o'r ffordd y maent yn defnyddio

gwasanaethau masnachol a chyhoeddus. Nod unrhyw newid i ddyraniad yr arian fydd gwneud y gwasanaethau yn fwy hygyrch i gleientiaid.

Bydd yr holl ddyraniadau cyllideb dangosol yn seiliedig ar ystod eang o ffactorau sy'n caniatáu i lunwyr penderfyniadau lleol gymryd cyfrifoldeb am benderfyniadau lleol. Y bwriad fyddai contractio am y gwasanaethau hyn am isafswm o dair blynedd ac felly byddai disgwyl i gyllidwyr eraill ymrwymo i ariannu am hyd y contract.

Manyleb Gwasanaeth

Bydd manyleb gwasanaeth yn amlinellu'r gwasanaethau i gael eu cyflenwi, yn cynnwys unrhyw grwpiau cleient blaenoriaeth neu ardaloedd daearyddol sy'n rhaid eu targedu, y safonau perfformiad gofynnol (e.e. nifer cleientiaid) a'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer yr ardal. Mater i ddarparwyr fydd dynodi'r ffordd orau i ateb y gofynion penodol o fewn y gyllideb osodedig a ddyrennir. Bydd angen i ddarparwyr gadw mewn cof fod ganddynt hwy, fel unig dderbynydd cyllid gan lywodraeth ganolog a hefyd lywodraeth leol ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol, gyfrifoldeb i bob cleient sydd angen gwasanaethau o fewn eu hardal gaffael ac nid yn unig y rhai sydd fwyaf galluog i gael mynediad iddynt neu y maent wedi arfer darparu gwasanaethau iddynt.

Cyn i unrhyw broses dendro ddechrau, caiff manylebau gwasanaeth drafft eu trafod yn agored gyda darparwyr lleol a grwpiau cynrychioli defnyddwyr gwasanaeth i sicrhau y caiff anghenion a blaenoriaethau'r ardal eu dynodi'n gywir. Bydd hyn yn sicrhau fod y Comisiwn yn caffael y gwasanaethau cywir ar gyfer y boblogaeth leol.

Rydym yn ymroddedig i gomisiynu gwasanaethau annibynnol sydd yn medru cyflenwi mynediad i gyfiawnder i unigolion, ac mae gennym draddodiad cryf o wneud hynny. Caiff pob penderfyniad am gomisiynu yn y dyfodol eu gwneud yn unol â'r ymrwymiad hwn.

Tendro

Yn yr un modd â phob trefniant contractio cymorth cyfreithiol cyfredol, yn y pen draw bydd y gwasanaethau hyn yn cael eu comisiynu trwy broses dendro a bydd y tâl yn seiliedig ar ba bynnag drefniadau sydd yn eu lle yn rhywle arall ar y pryd. Fodd bynnag, mae'n cael ei gydnabod na fydd tendro, efallai, yn addas bob amser yn y cyfnod cychwynnol wrth ddatblygu gwasanaethau integredig ac felly mae'n rhaid cael hyblygrwydd ar y pwynt hwn. Bydd yr amseru, i ryw raddau, yn dibynnu ar natur y ddarpariaeth sydd eisoes yn bodoli yn yr ardal gaffael. Mae'r ffactorau i'w hystyried yn cynnwys: y nifer o gategorïau craidd a ddarperir mewn ardal, y nifer o gontractau yn y categorïau hynny a nifer y darparwyr. Gall fod yn addas i gyllidwyr i ddechrau weithio gyda'r ddarpariaeth gyfredol i weld sut y gallant weithio gyda'i gilydd yn well i ddarparu gwasanaethau integredig cyn symud at broses dendro.

Cynhelid tendr agored bob amser pan fydd cyllidwyr yn awyddus i newid y nifer o ddarparwyr gwasanaeth neu'r swm i'w wario mewn ardal. Cynehlid tendr

agored hefyd petai angen i gategorïau ychwanegol gael eu dwyn i'r ardal. Mewn rhai achosion gall fod yn addas hefyd i dendro am ran o'r gwasanaeth yn unig. Fodd bynnag ar ddiwedd unrhyw gontract, mae cyfraith caffael yn mynnu proses agored a theg i ddyrannu adnoddau yn y dyfodol felly yn y pen draw bydd bob amser broses dendro ar ryw adeg.

Y prif amcan wrth ad-drefnu gwasanaethau yn y modd hwn yw cydnabod bod angen gwneud gwelliannau i'r trefniadau cyfredol i sicrhau bod gan gleientiaid fynediad at yr ystod lawn o wasanaethau cyfreithiol y mae arnynt eu hangen. Teimlir mai'r ffordd orau o ymdrin â hyn yw trwy un cytundeb cyfraith lles cymdeithasol ym mhob ardal gaffael gyda chysylltiadau ffurfiol â chyngor cyfreithiol teuluol, gan gydnabod anghenion cleientiaid sydd â phroblemau lluosog. Bydd Gwasanaethau Cynghori Cyfreithiol Cymunedol yn ystyried angen y cleientiaid i gael mynediad at wasanaethau teulu heb fod yn gyfreithiol, yn ychwanegol at gael cysylltiadau ffurfiol â chyngor cyfreithiol teuluol.

Gwelir enghreifftiau o'r modd y mae'r Comisiwn wedi sefydlu Gwasanaethau Cynghori Cyfreithiol Cymunedol gydag Awdurdodau Lleol yn Lloegr ar wefan y Comisiwn. Bydd y Comisiwn yn ymgynghori cyn cyflwyno unrhyw ffurf ar Dendro Gwerth Gorau ar sail pris. www.legalservices.gov.uk

6 Casgliad

Mae'r ddogfen bolisi hon yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol yng Nghymru dros y pum mlynedd nesaf, sy'n cynrychioli gwasanaethau cynghori gyda sicrwydd ansawdd, sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Yn ychwanegol mae'n cynnig gwerth am arian i'r trethdalwyr.

Mae'r ddogfen yn amlinellu:

- Strwythur llywodraethu clir, gan sicrhau dulliau creu polisi a chyllido ar y cyd, ynghyd â pheirianweithiau i ddeall anghenion dinasyddion Cymru o ran cyngor a fydd yn amhrisiadwy ar gyfer datblygiad y CLS yng Nghymru yn y dyfodol.

- Bydd gwasanaeth ffôn ehangach yn cynnig porth ychwanegol ar gyfer holl ddinasyddion Cymru, at ystod eang o gyngor.

- Bydd cyd-gomisiynu gwasanaethau cynghori, trwy Wasanaethau Cynghori Cyfreithiol Cymunedol, yn sicrhau bod cyllido'n cael ei gydlynu a mynediad lleol rhwydd i ystod o wasanaethau cynghori fydd yn cryfhau ei gilydd. Bydd hyn yn darparu gwasanaethau yn unol â'r argymhellion yn Creu'r Cysylltiadau.

Bydd yn cymryd amser i'r cynigion yn y papur hwn gael eu gweithredu, a bydd yn ofynnol cael cymorth ystod eang o fudd-ddeiliaid. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ac eraill yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y ddarpariaeth gwasanaeth cynghori yn datblygu ymhellach yng Nghymru.

Atodiad A

Pwyllgor Cymru'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol - Cylch Gorchwyl

Diben

1. Cryfhau a gwella'r modd y darperir y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol yng Nghymru trwy ddwyn cyllidwyr gwasanaethau cyfreithiol a chynghori at ei gilydd.

2. Dynodi sut y bydd newidiadau mewn strwythurau gwleidyddol, y gyfraith a pholisi cymdeithasol yng Nghymru yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau cynghori cyfreithiol a chynllunio ar gyfer yr effeithiau hyn.

3. Dynodi problemau sy'n codi yng Nghymru y bydd angen i'r Pwyllgor Ymgynghorol Cenedlaethol dros Gymru a Lloegr fod yn ymwybodol ohonynt yn ei drafodaethau.

4. Hwyluso rhannu gwybodaeth am:
    a. yr angen am wasanaethau cynghori cyfreithiol yng Nghymru, gan ddynodi rhaglenni parhaus ac i'r dyfodol yn y maes hwn ac ystyried sut y gellir eu cryfhau a chyflawni gwell canlyniadau a gwerth trwy gydlynu'r gweithgareddau hyn yn fwy effeithiol
    b. y ddarpariaeth gwasanaethau cynghori cyfreithiol gyfredol yng Nghymru
    c. darparwyr gwasanaethau cynghori cyfreithiol yng Nghymru.

5. Hwyluso cyd-gynllunio gwasanaethau cyhoeddus eraill sy'n cael effaith ar anghenion cyngor cyfreithiol cleientiaid.

6. Datblygu ffyrdd o ymdrin â phroblemau systemig neu "achos sylfaenol" wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus (a phreifat) sy'n achosi problemau cyfreithiol i gleientiaid.

7. Rhoi llais i bobl Cymru yn natblygiad y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol.

Aelodaeth Ddangosol
Cynrychiolwyr:
Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
Llywodraeth Cynulliad Cymru (cynrychiolwyr addas o Unedau o fewn y Llywodraeth)
CAFCASS Cymru
Comisiynydd Plant Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cyngor Defnyddwyr Cymru
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru
Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi (HMCS)
Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol (NOMS)
Canolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol (LSRC)
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Fforwm Cenedlaethol y CLS yng Nghymru
SOLACE Wales

Bydd aelod o'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn cadeirio'r Pwyllgor. Bydd y Comisiwn hefyd yn cael ei gynrychioli gan Gyfarwyddwr y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol, cynrychiolydd o Dîm Polisi Sifil yr LSC a chan Gyfarwyddwr LSC Cymru.

Ysgrifenyddiaeth
Bydd y Comisiwn yn gwneud dyletswyddau ysgrifenyddol y Pwyllgor, ond bydd papurau ac eitemau ar gyfer yr agenda yn cael eu ceisio gan yr holl gyrff sy'n cael eu cynrychioli.

Cyfarfodydd
Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn mewn canolfannau sy'n gyfleus i aelodau. Bydd un pwyllgor y flwyddyn yn cynnwys cyfarfod â chynrychiolwyr darparwyr gwasanaethau cyfreithiol a chynghori yng Nghymru. Bwriedir i hyn ddigwydd trwy Fforwm Cenedlaethol y CLS yng Nghymru. Bydd un cyfarfod yn cynnwys cyfarfod gyda grŵp ymgynghorol cleientiaid, sydd i'w sefydlu. Ni fydd yr aelodau'n cael ffi am fynychu, gan y byddant yn mynychu fel cynrychiolwyr eu cyrff penodol.

Adolygu
Bydd Cylch Gorchwyl Pwyllgor Cymru'r CLS yn cael ei adolygu yn flynyddol.

Atodiad B

Yr Ardaloedd Gweithio Rhanbarthol a fwriedir yng Nghymru: Mae pob un o'r ardaloedd caffael a amlinellir isod yn hyblyg ac ni fyddant yn cael eu pennu'n derfynol heb drafodaethau gyda chyd-gomisiynwyr posibl. Yn y pen draw bydd comisiynu'n digwydd ar lefel ranbarthol mewn modd fydd yn ymdrin ag anghenion pobl Cymru orau.

Rhanbarth	**Awdurdodau Lleol**
Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a'r Fro	Pen-y-bont ar Ogwr Caerdydd Bro Morgannwg
Canol Cymru	Ceredigion Powys
Gogledd Ddwyrain	Sir Ddinbych Sir y Fflint Wrecsam
Gogledd Orllewin	Conwy Gwynedd Ynys Môn
Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful	Merthyr Tudful Rhondda Cynon Taf
De Ddwyrain	Blaenau Gwent Caerffili Sir Fynwy Casnewydd Torfaen
De Orllewin	Sir Gaerfyrddin Sir Benfro
Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe	Castell-nedd Port Talbot Abertawe